CYNLLUN COLEGAU CYMRU

2013 – 2014

ADRODDIAD Y CYMEDROLYDD

Mehefin 2014

Kris Sobol

Cynnwys

Tudalen

1. **Cyflwyniad**
2. **Prif Sylwadau**
3. **Dyletswyddau Cymedrolydd**
4. **Y Myfyrwyr**
5. **Proses Cymedroli 2013-14**
6. **Y Camau**
7. **Ymweliadau â'r Canolfannau**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin)
Prifysgol De Cymru, Casnewydd (SEWCTET)
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Abertawe)
Prifysgol Cymru Bangor
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (SEWCTET)

8. **Sylwadau a godwyd gan fyfyrwyr yn y drafodaeth**
9. **Argymhellion**

1. Cyflwyniad

Diolch yn fawr iawn unwaith eto eleni i'r sefydliadau am drefnu sesiynau cymedroli o fewn cyfyngderau amserlenni sydd yn barod yn orlawn. Mae'r broses o gymedroli'n rhan holl bwysig o fonitro a chymedroli darpariaeth a chyrhaeddiad Cynllun Colegau Cymru. Mae'n bwysig hefyd bod y sefydliadau yn cael y cyfle i arddangos gallu ac ymrwymiad myfyrwyr a thiwtoriaid o fewn y sefydliadau a'r cyrsiau hyfforddi athrawon trwy Gymru, sef:

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin)
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Abertawe)
Prifysgol De Cymru, Casnewydd (SEWCTET)
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (SEWCTET)
Prifysgol Cymru Bangor

Un o brif fwriadau'r system cymedroli yw cyfarfod a chyfweld â nifer o fyfyrwyr ymhob blwyddyn ac ar bob Cam o'r Cynllun. Gan fod patrymau amserlen cyrsiau TÂR a BA Astudiaethau Cynradd yn ddibynnol ar gyfnodau profiad ysgol, mae hyblygrwydd wrth drefnu ymweliadau yn bwysig a chymhleth ofnadwy. Mae'n falch gen i adrodd yn ôl eleni bod pob sefydliad wedi llwyddo i drefnu sesiwn cymedroli a dwi'n ddiolchgar iawn am hynny.

Diolch yn fawr i staff a myfyrwyr pob sefydliad am eich croeso cynnes, cydweithrediad cefnogol a'r cyfle fel arfer i gwrdd â'ch myfyrwyr brwdfrydig, galluog a bywiog. Mae'n amlwg ymhob sefydliad bod y myfyrwyr yn gwerthfawrogi brwdfrydedd a mewnbwn y tiwtoriaid yn y sesiynau dysgu yn ogystal â'u cyngor a chefnogaeth. Diolch i'r tiwtoriaid i gyd am eich gwaith caled yn ysgogi'r myfyrwyr a'u hyfforddi ar sut i addysgu Cymraeg Ail-iaith yn effeithiol yn ysgolion Cymru a datblygu hyder a chymhwysedd personol.

Kris Sobol, Mehefin 2014.

2. Prif Sylwadau

Mae'r canlyniadau a safonau da iawn a geir ar gwrs Cynllun Colegau Cymru yn dystiolaeth eleni, fel pob blwyddyn arall, i lwyddiant myfyrwyr a gwaith caled y tiwtoriaid.

Yn sicr, mae pob myfyriwr yn elwa o'r ddarpariaeth a geir ar gyrsiau Cynllun Colegau Cymru. Mae'r cynllun wedi ei brofi dros nifer helaeth o flynyddoedd, (dros ugain mlynedd erbyn hyn) mae wedi bod yn hyblyg, yn datblygu yn ôl yr angen ac mewn ymateb i ofynion statudol ac anstatudol. Fodd bynnag, mae dal diffyg statws ac ymwybyddiaeth o'r Cynllun o fewn y sefydliadau a'r ysgolion ledled Cymru o ran sawl agwedd ac mae dal llawer o waith datblygu i'w wneud er mwyn codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg Ail-iaith mewn ysgolion er mwyn codi safonau cyrhaeddiad y plant a chyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gael 'Cymru gwbl ddwyieithog' (LIC, 2003)
Mae'n gam positif ymlaen eleni bod ein cydweithrediad gyda Choleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sicrhau cyllid ar gyfer Ymgynghorydd Y Cynllun. Hoffwn i ymestyn cefnogaeth a chyngor tiwtoriaid Y Cynllun i gyd at Bethan Clements fel mae hi'n mynd ati i gwblhau gofynion a heriau diwygio'r Cynllun ar gyfer y dyfodol.

Wrth ddiwygio'r Cynllun ar gyfer y dyfodol mae'n bwysig iawn bod tiwtoriaid Y Cynllun yn chwarae rôl allweddol yn y trafodaethau a'r penderfyniadau sy'n arwain at fframwaith newydd Cynllun Colegau Cymru. Ni all y Cynllun 'newydd' lwyddo heb y cydweithrediad yma.

Erbyn hyn mae pob sefydliad sy'n dilyn Cynllun Colegau Cymru yn defnyddio'r gyfundrefn asesu sy'n seiliedig ar y Camau sef Cam 1, Cam 2 a Cham 3. Mae'r tasgau ac aseiniadau a osodir ymhob sefydliad ar gyfer pob Cam yn dal i fod yn addas ac yn heriol (yn cynnwys tasgau, canllawiau, meini prawf a threfn asesu,) a byddai'n fuddiol iawn i'r tiwtoriaid i gyd gael trafodaeth amdanynt ar gyfer adeiladu ar y cysondeb sy'n bodoli yn barod.

Fel arfer, nid oes digon o oriau ar gyfer trosglwyddo cymaint o iaith a methodoleg sydd angen ar y myfyrwyr yn yr amser sydd ar gael o fewn oriau cyswllt cyrsiau'r sefydliadau. Rhaid dibynnu ar ddiddordeb a pharodrwydd thiwtoriaid a sicrhau bod hyfforddeion yn chwarae eu rhan a chymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad personol.

Mae'r amrywiaeth yng nghefndir yr hyfforddeion yn gwneud dysgu a chymedroli grwpiau cymysg Cymraeg Ail-iaith yn heriol ac anodd.

3. Dyletswyddau Cymedrolydd

Mae'n bwysig i diwtoriaid cofio nad cyfweld unigolion/grwpiau o hyfforddeion ar gyfer asesiad terfynol diwedd blwyddyn yw bwriad ymweliadau blynyddol cymedrolydd, ond sicrhau bod cysondeb ar draws y canolfannau. **Roedd yn dda eleni gweld bod y myfyrwyr i gyd wedi'i asesu'n barod.**

y prif gyfrifoldebau yw:

I. cyfweld croestoriad/sampl o fyfyrwyr ar wahanol Gamau'r Cynllun ym mhob canolfan i sicrhau cysondeb; nid yw'n bosib gweld grwpiau ar bob Cam bob tro, oherwydd amserlen profiad ysgol;

II. casglu samplau o waith, yn enwedig pan fo nifer helaeth o ddysgwyr ar gyfnodau profiad ysgol. Mae derbyn samplau o waith ysgrifenedig myfyrwyr yn cyfrannu'n fawr at ddarlun cyflawn;

III. trafod a holi nifer o gwestiynau er mwyn nodi pa fath o dasgau/aseiniadau a osodir i fyfyrwyr a gweld samplau o aseiniadau a gwaith ymarferol myfyrwyr;

IV. nodi'r cyfleoedd sydd i hyfforddeion ymarfer sgiliau a darparu sesiwn/gwers i drosglwyddo'r Gymraeg fel Ail-iaith i ddisgyblion yn ystod profiad ysgol; gall hyn cael ei drafod gyda myfyrwyr yn ystod cyfweliadau;

V. llunio adroddiad trwy gasglu gwybodaeth o gyfweliadau llafar gyda myfyrwyr a sgwrs gyda'r tiwtoriaid yn ystod ymweliadau. Mae'r adroddiad yn bwysig i ddadansoddi llwyddiant a chysondeb y cwrs o fewn pob sefydliad ac ar lefel genedlaethol;

VI. cynnig sylwadau adeiladol ar weithrediad y Cynllun, neu awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu welliant;

VII. anfon yr adroddiad at Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd wedyn yn ei ddanfon ymlaen at gyfunwyr y canolfannau;

VIII. bod yn bresennol yng nghyfarfod blynyddol i drafod yr adroddiad.

4. Y Myfyrwyr

Man cychwyn y Cynllun yw mesur sgiliau ieithyddol unigolyn ar ddechrau ei hyfforddiant. Nid yw tystiolaeth ar bapur bob amser yn adlewyrchu gwir allu'r myfyriwr. Mae ystod eang o allu a chefndir y myfyrwyr yn ychwanegu at yr her i diwtoriaid o grwpio'n addas ar gyfer sesiynau.

Ni all pob dysgwr gyrraedd Cam 3*** o fewn tair blynedd Cwrs Cynllun Colegau Cymru oherwydd nid yw'r oriau dysgu iaith yn ddigonol i sicrhau'r fath gynnydd mewn amser byr. Nid arwydd o fethiant yw hynny; rhaid ystyried gallu ieithyddol pob myfyriwr wrth gychwyn, wrth asesu a mesur eu llwyddiant ar ddiwedd y cwrs.

Mae'n holl bwysig sicrhau bod darpariaeth, parhad a chefnogaeth i'r myfyrwyr ar gychwyn eu gyrfa ar ôl gorffen ar eu cwrs gradd neu TAR a bod modd iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau personol a phroffesiynol Cymraeg ymhellach trwy dderbyn hyfforddiant mewn swydd.

5. Proses Cymedroli 2013-14

- Mae'n bwysig cofio mai sampl/croestoriad o'r myfyrwyr sydd ar gael ar y pryd o fewn sefydliad yw'r grwpiau a gyfwelir; gwyddir nad oes modd trefnu gweld grŵp ar bob Cam ac o bob safon yn ystod ymweliad cymedroli. Darlun o'r hyn sy'n digwydd ymhob sefydliad sydd ei angen er mwyn sicrhau cysondeb a safonau.

- Myfyrwyr i ddod â llyfr darllen addas i'r sesiwn yn ogystal ag unrhyw adnoddau yr ydynt wedi paratoi yn ystod y cwrs. Ni fydd pob myfyrwyr yn cael y cyfle i ddarllen stori yn ystod y sesiwn.

- Tiwtoriaid i roi neu ddanfon sampl o waith ysgrifenedig ar gyfer y grwpiau.

- Yn ôl yr arfer, cynhelir sesiwn cyfarch a sgwrsio cyffredinol ar gychwyn cyfweliadau pob grŵp, a hynny ar lefel sy'n addas ar gyfer iaith y grŵp. Byddai'r cymedrolydd fel rheol yn cychwyn ac arwain trafodaeth a sbarduno yn ôl yr angen.

- Byddai'r cymedrolydd yn newid cyfeiriad y drafodaeth a sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfleoedd i ymateb .

6. Y Camau

CAM 1*	**CAM 2 ***	**CAM 3***
• Llwyddo i gyfarch a deall cyfarwyddiadau, e.e. chwarae gêm, ymateb i gwestiynau syml • Cyflwyno manylion personol a dangos meddiant o eirfa sylfaenol gydag ynganiad boddhaol; • Darllen testun cyfarwydd syml yn foddhaol, e.e. cyfarwyddiadau gêm wedi eu gosod mewn cymalau syml ac ymateb i'r cynnwys • Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig sylfaenol mewn fframwaith, e.e. arddangos gwybodaeth	• Ynganu'n eglur ac eithaf hyderus gan ddangos amrywiaeth yn y brawddegu • Ymestyn ymateb wrth drafod manylion personol a chyfarwydd gan amrywio'r defnydd o'r ferf 'bod' a defnyddio'r gorffennol yn weddol rwydd • Gallu darllen yn effeithiol ar goedd gan drafod testun, adnabod prif bwyntiau'r cynnwys a mynegi barn • Cyfleu gwybodaeth ysgrifenedig yn eglur a boddhaol	• Siarad yn naturiol ac ymateb yn hyderus i gwestiynau gan ehangu ar fanylion personol a phrofiadau a gafwyd yn yr ysgol yn rhwydd a chywir ar y cyfan • Gallu darllen testun ar goedd yn hollol hyderus, trafod cynnwys a chyfeirio at dermau yn ddeallus • Ysgrifennu yn gywir ar y cyfan i fynegi barn neu ddisgrifio, gan ddangos dealltwriaeth dda o gywair a chywirdeb boddhaol wrth ddefnyddio cystrawen a gramadeg a'r gallu i drosglwyddo'r sgiliau i ddysgwyr ifanc

o gynnwys llyfr mewn atebion un gair neu gwestiwn aml ddewis		
CAM 1 ** • Ynganu'n glir wrth sgwrsio am fanylion personol • Amrywio rhywfaint ar batrymau brawddegol • Mynegi barn sylfaenol a deall gorchmynion • Darllen testun syml i blant ar goedd yn eithaf hyderus • Ysgrifennu mewn cymalau a brawddegau syml o fewn fframwaith	**CAM 2**** • Deall ac ymateb i gwestiynau'n hyderus, datblygu syniadau ac amrywio ffurf y ferf; defnyddio'r dyfodol i ddatgan dyhead ac ymateb i gyfarwyddiadau mwy cymhleth • Darllen testun ar goedd yn hyderus ac ystyrlon, trafod y cynnwys yn ddeallus • Cwblhau tasg ysgrifenedig i fynegi barn a chyflwyno gwybodaeth; dangos ymwybyddiaeth o gywirdeb ac atalnodi	**CAM 3**** • Siarad yn naturiol, hyderus a chywir, ateb a holi cwestiynau, ehangu sgwrs, gwrando, trafod ac ymateb i safbwynt , ystyried a chynnig rhesymau am safbwynt • Dangos y gallu i gyfleu ymateb ar lafar i'r testun dan sylw, egluro a chymharu â thestunau eraill • Ysgrifennu'n ymestynnol gan arddangos gwybodaeth dda o gywirdeb, rheolau gramadeg a'r awydd i drosglwyddo hynny i ddisgyblion sy'n ddysgwyr
CAM 1 *** • Ymestyn ymatebion yn fwy hyderus, egluro'n ddealladwy, mynegi barn, cyflwyno gwybodaeth bersonol, am y teulu a'r cartref, trafod themâu • Arddangos sgiliau darllen ar goedd a gwybodaeth am destunau cyfarwydd ar gyfer disgyblion • Ysgrifennu'n ehangach gyda chymorth fframwaith a chyfle i gynnig sylwadau pellach	**CAM 2 ***** • Siarad ac ymateb yn glir a hyderus, arddangos defnydd naturiol o ffurfiau berfol a gafael ar gystrawen idiomatig wrth gychwyn sgwrsio, gallu ehangu'r drafodaeth • Darllen yn ystyrlon ar goedd ac arddangos gallu i drafod cynnwys y testun a mynegi barn; • Ysgrifennu'n gywir gan ddewis geirfa'n ofalus gydag amrywiaeth dda yn y brawddegu a'r gystrawen	**CAM 3***** • Siarad yn naturiol, hyderus a chywir, gallu ehangu trafodaeth, arddangos gwybodaeth o gywair, cyfleu safbwynt, disgrifio'n fedrus, cymharu, defnyddio geirfa eang gydag ystod o briod-ddulliau • Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, cyfleu gwybodaeth a mynegi barn, dadansoddi'n effeithiol • Ysgrifennu'n fedrus a chywir gan arddangos gwybodaeth dda iawn o reolau gramadeg, atalnodi ac arddangos brwdfrydedd fydd yn ysgogi disgyblion i siarad, darllen ac ysgrifennu'n fyrlymus yn y Gymraeg yn y dosbarth

7. Ymweliadau â'r canolfannau

Rhwng y 31ain o Fawrth, 2014 a'r 16eg o Fai, 2014, cyfwelwyd 79 o fyfyrwyr mewn 5 sefydliad.

- Mawrth 25ain, 2014, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin), 19 myfyriwr, 5 grŵp.

- Mawrth 31ain, 2014, Prifysgol De Cymru (Casnewydd) (SEWCTET),

11 myfyriwr, 3 grŵp, Bl. 2.

- Ebrill 3ydd, 2014, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Abertawe), 18 myfyriwr, 5 grwp.

- Ebrill 30ain, 2014, Prifysgol Cymru Bangor, 4 grŵp cymysg (blynyddoedd), 17 myfyriwr ar gwrs Astudiaethau Cynradd (SAC).

- Mai 16, 2014, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd) (SEWCTET), 14 myfyriwr TÂR, 5 grŵp

7.1 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin), Mawrth 25, 2014 19 myfyriwr, 5 grŵp

Grŵp 1, Cam 3* (Blwyddyn 3, 3 fyfyrwraig)**
Roedd y tair yma yn rhugl yn y Gymraeg yn barod ond o gefndiroedd gwahanol o ran defnydd ac addysg yn yr iaith. Roedd hi'n bosibl i gael sgwrs estynedig gyda'r grŵp yma lle roeddent yn gallu trafod y cwrs, eu bywydau a themâu eraill perthnasol. Byddant yn gwerthfawrogi amser ychwanegol o fewn y ddarpariaeth ar gyfer gloywi eu hiaith eu hunain a methodoleg addysgu'r Gymraeg yn enwedig fel ail-iaith. Byddant yn croesawu sesiynau wedi'i ffrydio yn fwy penodol.

Grŵp 2, Cam 3: (Blwyddyn 2, 4 myfyriwr)**
Grŵp cymysg oedd hyn o ran cefndir a lefel rhuglder. Roedd pob un yn rhugl ac yn awyddus iawn i gael mwy o ddarpariaeth ar eu cyfer o ran gloywi iaith a datblygu iaith fwy academaidd. Byddant hefyd yn awyddus i gael arweiniad pellach ar sut i gynllunio ar gyfer addysgu gwersi Cymraeg ail-iaith. Byddant yn croesawu sesiynau sydd wedi'i ffrydio'n fwy manwl hefyd o ran gallu'r myfyrwyr er mwyn iddynt ddatblygu'n bellach yn gyflymach.

Grŵp 3, Cam 2:(Blwyddyn 2, 3 myfyriwr)
Roedd y grŵp yma a chymwysterau AS, TGAU a Lefel A. O ran iaith lafar, roedd 2 yn cyrraedd Cam 2 ** ac un yn cyrraedd Cam 2*. Ar y cyfan, roedd gan bob un wybodaeth gadarn am y themâu posib i blant a rhai strategaethau gemau iaith. Roeddent hefyd yn ymwybodol o adnoddau fel Tedi Twt a'r Porth ac yn dweud eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer darpar athrawon.

Grŵp 4, Cam 2: (Blwyddyn 2, 4 myfyriwr)
Roedd y grŵp yma wedi sefyll TGAU Cymraeg ail-iaith. Roedd yr un gorau yn cyrraedd Cam 2** a'r gweddill yn cyrraedd Cam 2*. Roeddent yn trafod themâu perthnasol ar gyfer y Cam ac yn darllen llyfrau addas yn dda iawn hefyd.

Grŵp 5, Cam1: (Blwyddyn 1, 5 myfyriwr)
Roedd y gorau yn y grŵp yma ar Gam 1** gyda'r gweddill ar Gam 1*. Roeddent i gyd yn darllen yn dda neu yn dda iawn, yn gywir ac yn mynegi yn effeithiol. Roedd hi'n amlwg bod nhw'n deall ystyr y testun wrth ddarllen.

7.2 Prifysgol De Cymru (Casnewydd) (SEWCTET), Mawrth 31, 2014

11 myfyriwr, 3 grŵp, Bl. 2

Grŵp 1, Cam 2: (Blwyddyn 2, 4 myfyriwr)
Roedd gan y 4 profiadau gwahanol o ddysgu'r Gymraeg, 2 â Lefel A, 1 gyda TGAU byr a'r llall oedd wedi mynychu cwrs Cymraeg i Oedolion. Roedd y 2 gorau ar Gam 2** a'r 2 arall ar Gam 2*. Roedd y ddau gorau yn siarad yn dda iawn ar eu lefel ac yn amlygu llawer o botensial ar gyfer datblygiad pellach. Roedd 2 nad oedd yn cyrraedd mor uchel â'r lleill. Roedd y rhain yn swil ac roedd hyn yn achosi camgymeriadau a diffyg llif y sgwrs.

Grŵp 2, Cam 2: (Blwyddyn 2, 4 myfyriwr)
Roedd 2 o'r grŵp yma wedi dysgu Cymraeg Ail-iaith yn yr ysgol gynradd at flwyddyn 6 a'r ddwy arall tan ddiwedd blwyddyn 9. Roedd y 2 gorau yn y grŵp yma yn fywiog iawn, wedi dysgu'r patrymau yn dda, ynganu yn gywir ac yn mynegi yn effeithiol. Roedd y gorau yn y grŵp yn cyrraedd Cam 2***, yr ail ar Gam 2** a'r gwannaf ar Gam 2*. Roeddent i gyd yn darllen yn dda neu yn dda iawn o fewn y Cam. Maent yn amlygu llawer o botensial am ddatblygiad pellach.

Grŵp 3, Cam 2: (Blwyddyn 2, 3 myfyriwr)
Roedd 2 o'r 3 yma o Loegr ac un o Gasnewydd. Roedd hi'n amlwg pa mor frwdfrydig oedd pob un ohonynt ac roeddent wedi dysgu patrymau'r Cam yn dda. Er hynny, maent yn awyddus i gael mwy o amser ar gyfer dysgu a datblygu yn bersonol yn y Gymraeg yn enwedig cyn mynd allan ar brofiad ysgol. Maent yn cael eu herio gydag ynganu yn y Gymraeg ac yn meddwl bod diffyg hyder yn eu dal yn nol.
Maent yn becso hefyd am gael yr un asesiadau iaith am y grwpiau mwy galluog. Roedd yr un gorau yn y grwp yma ar Gam 2** a'r 2 arall ar Gam 2*.

7.3 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Abertawe), Ebrill 3ydd, 2014
18 myfyriwr, 5 grwp

Grŵp 1, Cam 1: (TÂR, 4 myfyriwr)
Roedd y grŵp yma yn wych o ran Cam 1. Roeddent i gyd o du allan i Gymru ac roeddent yn gweithio yn galed i ateb yn gywir ac yn hyderus. Roedd pob un yn cyrraedd Cam 1* gydag un ar Gam 1 **.

Grŵp 2, Cam 2: (TÂR, 4 myfyriwr)
Roedd pawb yn y grwp yma o Gymru. Roedd pob un wedi ymarfer yn drylwyr ac yn ymgeisio yn dda iawn yn y cyfweliad. Roedd pawb yn cyrraedd Cam 2*. Doeddent ddim yn gryf ar y gorffennol nac wrth ofyn cwestiynau i'w gilydd o fewn patrymau y Cam.

Grŵp 3, Cam 1a 2: (TÂR, 4 myfyriwr)
Roedd yr un aelod ar Gam 1 yn wan iawn yn ystod y cyfweliad, efallai trwy swilder neu nerfusrwydd.
Roedd y 3 arall yn well ac ar Gam 2 gyda 2 o'r 3 ar Gam 2**/***. Roedd y

rhain yn deall popeth oedd yn cael ei ddweud yn syth ac yn gallu ymateb mewn brawddegau estynedig synhwyrol. Roeddent hefyd yn gallu defnyddio ffurf gryno gorffennol 'bod' sef 'Do' a 'Naddo' i ateb cwestiynau ac ymestyn ar eu hymatebion.

Grŵp 4, Cam 2/3: (TÂR, 4 myfyriwr)
Roedd cymysgedd o allu yn y grŵp yma. Roedd 1 wedi sefyll TGAU ac yn siarad yn eithaf rhugl ar Gam 3. Roedd hi'n deall popeth oedd yn cael ei ddweud ac yn Cyrraedd Cam 3*.
Roedd un â Lefel O/Dosbarth Nos ac yn siarad yn rhugl iawn ar Gam 3**. Roedd hi'n siarad yn naturiol ac yn defnyddio ystod eang o batrymau ar lefel uchel sef 'pan' 'byddaf'.
Roedd 1 â Lefel A Ail-iaith ac yn cyrraedd Cam 2**. Roedd hi'n defnyddio'r gorffennol yn gywir yn ogystal â'r amodol sef 'hoffwn i'. Roedd hi ychydig yn swil ac roedd hyn yn ei hatal rhag ymestyn yn bellach.
Roedd gan y pedwerydd TGAU yn y Gymraeg. Roedd hi'n deall yn dda iawn ond nid oedd hi'n ymateb yn ddigon cywir bob tro. Roedd hi'n nerfus iawn. Roedd hi'n cyrraedd Cam 2*.

Grŵp 5, Cam 3: (TÂR, 4 myfyriwr)
Roedd y grŵp yma i gyd yn rhugl yn y Gymraeg. Daethant o gartrefi a chefndiroedd cymysg lle roeddent naill ai wedi'i haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu roeddent yn siarad Cymraeg gartref.
Roedd cyfle gyda'r grwp yma i drafod eu cwrs yn ymestynnol. Roeddent yn becso am y niferoedd uchel yn y dosbarth Cymraeg sef 25. Mae'r grŵp yma yn mynychu sesiynau Cymraeg Ail-iaith a ddim yn cael sesiynau gloywi.

7.4 Prifysgol Cymru Bangor, 30ain o Ebrill, 2014

4 grŵp cymysg (blynyddoedd), 17 myfyriwr ar gwrs Astudiaethau Cynradd (SAC)

Grŵp 1, Cam 1: (Blwyddyn 1, 6 myfyriwr)
Roedd aelod gorau'r grŵp yma yn cyrraedd Cam 1***, un yn cyrraedd Cam 1** a'r 3 arall yn cyrraedd Cam 1*. Roedd yn dda i weld faint o iaith sydd gyda nhw yn barod. Mae angen cyfleodd ychwanegol i ymarfer a datblygu yn bellach. Roedd y grŵp yma yn amlygu enghraifft gadarn o fyfyrwyr di-gymraeg o Loegr yn datblygu'n dda ar Gam 1.

Grŵp 2, Cam 1: (Blwyddyn 3, 5 myfyriwr)
Roedd pawb yn cyrraedd Cam 1 gydag 1 ar Gam 1* a'r 4 arall ar Gam 1***. Roedd y myfyrwyr yma yn awyddus i gael darpariaeth ychwanegol o ran gryno disgiau/ffyn cof gyda phatrymau iaith addas arnynt i'w helpu i ymarfer tu allan i'r dosbarth. Roeddent hefyd yn trafod eu dymuniadau o gael gweithgareddau tu allan i'r dosbarth i helpu nhw fel gemau sy'n addysgu a chynorthwyo iaith achlysurol. Nid oedd y grŵp yma yn fodlon ar gael siaradwyr Cymraeg yn eu grwp nhw ac roeddent yn awgrymu bod y siaradwyr rhugl Blwyddyn 1 yn cael sesiynau gyda'r rhai rhugl blwyddyn 3.

Grŵp 3, Cam 3: (Blwyddyn 1, 4 myfyriwr)
Roedd gan bob aelod o'r grŵp yma cefndir gwahanol o ran eu datblygiad yn y Gymraeg a'r defnydd. Roedd 1 yn siarad Cymraeg 'hanner a hanner' gartref, 1 wedi'i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ond yn dod o deulu di-gymraeg, 1 wedi'i addysgu trwy gyfrwng y Saesneg ond yn siarad Cymraeg gyda Dad a'r llall yn dod o deulu di-gymraeg ond mynychodd ysgol gynradd Gymraeg ac ysgol uwchradd ddwyieithog.
O ran patrymau Cam 3, roedd 2 yn cyrraedd Cam 3** a 2 yn cyrraedd Cam 3. Roedd pawb yn gallu siarad yn rhugl iawn yn gyffredinol er roedd llawer o wallau treiglo. Nid oeddent yn cyrraedd yn uwch na Cham 3* a 3** achos gwendidau o ran cywirdeb iaith.

Grŵp 4, **Cam 3**:**(Blwyddyn 2 , 2 myfyriwr)**
Roedd 1 o'r 2 yma wedi mynychu ysgol gynradd Gymraeg ac ysgol uwchradd ddwyieithog. Mae'n siarad Cymraeg gartref. Roedd hi'n cyrraedd Cam 3** yn y cyfweliad cymedroli. Roedd hi'n eithaf swil a di hyder ar adegau yn ystod y sgwrs. Mae'r 2 yn awyddus i wella'u hiaith i fod yn gallu mynd allan i ysgolion Cymraeg ar brofiad ysgol ac i weithio yn y dyfodol. Gwnaeth 1 o'r 2 yma ei phrofiad bloc cyntaf mewn ysgol cyfrwng Saesneg a'r llall mewn ysgol ddwyieithog. Maent yn derbyn sesiwn awr a hanner Cymraeg Ail-iaith bob wythnos ar hyn o bryd a sesiwn awr a hanner gloywi.

7.5 Prifysgol Fetropolitan Caerdydd) (SEWCTET), Mai 16, 2014

14 myfyriwr TÂR, 5 grŵp

Grŵp 1, **Cam 3**:**(TÂR , 1 myfyriwr)**
Cyrhaeddodd y fyfyrwraig yma Cam 3** yn ystod y cyfweliad. Roedd hi'n eithaf hyderus ond yn seibio yn aml a defnyddio geiriau Saesneg yn ormodol. Mae ganddi TGAU a Lefel A Cymraeg Ail-iaith. Roedd hi'n siarad ar ystod eang o themâu priodol ar gyfer y Cam. Roedd hi'n gallu cynnal deialog yn defnyddio'r gorffennol perffaith ac amherffaith yn ystyrlon a defnyddio amseroedd gwahanol yn ei disgrifiad personol.

Grŵp 2, **Cam 3**:**(TÂR , 3 myfyriwr)**
Cyrhaeddodd aelodau'r grŵp yma Camau gwahanol sef: 1***, 2* a 2** yn y cyfweliad. Mae gan bob un ohonynt TGAU yn y Gymraeg a gan un ohonynt Lefel A. Roedd y gorau yn gallu siarad yn dda iawn o fewn patrymau'r Cam er roedd un yn eithaf dihyder. Roedd hi'n deall popeth roedd gennyf i ddweud wrthi. Roedd y 3 yn darllen yn dda, yn mynegi yn effeithiol a dealladwy.

Grŵp 3, **Cam 3**:**(TÂR , 2 myfyriwr)**
Cyrhaeddodd y 2 yma Cam 1*** yn y cyfweliad. Roedd y 2 yn dda iawn wrth ddarllen llyfr addas ar eu Cam nhw. Roeddent yn defnyddio ystod addas o batrymau iaith a geirfa ar themâu'r Cam sef arddodiaid, disgrifio personol, bwyd a'r amser gorffennol (es i).

Grŵp 4, **Cam 3**:**(TÂR , 4 myfyriwr)**

Grŵp oedd yn cyrraedd Camau gwahanol oedd y rhain. Roedd 1 â TGAU byr yn cyrraedd Cam 1***. Roedd hi'n siarad yn hyderus a bywiog o fewn y Cam ac yn ynganu yn wych.
Roedd 1 arall yn cyrraedd Cam 1*** hefyd.
Roedd un arall â TGAU byr yn y grŵp ac roedd hi'n cyrraedd Cam 2* yn y cyfweliad. Roedd hi hefyd yn siarad yn hyderus ac yn gallu ymestyn ei sgwrs yn annibynnol. Roedd hi'n darllen yn ystyrlon ac yn gofyn cwestiynau i aelodau'r grwp.
Aelod gorau'r grwp yma oedd ar y brig rhwng Cam 1***/2*.

Grŵp 5, **Cam 3**:**(TAR , 3 myfyriwr)**
Cyrhaeddodd y 3 myfyriwr yma Cam 1** ac 1*** yn ystod y cyfweliad. Roedd y 2 ar Gam 1*** yn siarad yn dda iawn o fewn y Cam. Roeddent yn ynganu yn glir ac yn mynegi yn briodol yn enwedig wrth ddarllen y llyfr stori syml. Roedd yr 1 ar Gam 1** yn dda ond ddim yn darllen mor rhugl â'r 2 arall.

8. Sylwadau a godwyd gan fyfyrwyr yn y drafodaeth

- Pryder ynglŷn â niferoedd mawr yn y grwpiau a hefyd yr ystod eang o brofiad a gallu yn y grwpiau (er bod y tiwtoriaid wedi'i ffrydio).
- Angen mwy o amser ar gyfer y Cynllun, mwy o loywi a methodoleg, yn enwedig yn y grwpiau dechreuwyr pur a dibrofiad.
- Eisiau cael adnoddau sy'n ynganu geirfa a phatrymau ar lafar i'w helpu.
- Eisiau i bawb cael cyfle i arsylwi ar wers Cymraeg Ail-iaith ac i gynllunio ac addysgu gwers eu hunain yn yr ysgol.
- Rhai mwy galluog a chymwys yn becso bod nhw ddim yn gwella digon o ran hyder ac iaith lafar.
- Maent eisiau i ddarlithwyr pynciol eu cyrsiau defnyddio geirfa a phatrymau Cymraeg addas yn eu sesiynau ac i fod yn fwy ymwybodol o'r cynnwys Cymraeg yng ngwersi ysgol ar brofiad ysgol.

9. Argymhellion ar gyfer y dyfodol

Am y tiwtoriaid

1. Penderfynu ar nifer sylfaenol o oriau cyswllt ar gyfer pob Cam er mwyn rhoi digon o gyfle i'r myfyrwyr parhau i ymarfer ac ymestyn eu sgiliau iaith ar gyfer addysgu'n effeithiol yn y dosbarth ar bob lefel a llwyddo ar y Camau.

2. Parhau i ffrydio'r grwpiau cymaint ag sy'n bosibl. Mae'r amrywiaeth yng nghefndir y myfyrwyr yn gwneud dysgu grwpiau cymysg Cymraeg ail iaith yn heriol ac anodd. Mae hyn hefyd yn rhwystro rhai o'r goreuon rhag ddatblygu'n rhugl.

3. Canolbwyntio ar wella ynganiad er mwyn iddynt ddod yn llawer mwy naturiol a'u hyder yn fwy cadarn a'u llwyddiant ar y Camau yn fwy buan.

4. Trafod a chymharu trefniadau asesu ymhob sefydliad er mwyn rhannu ac adeiladu ar y cysondeb sy'n bodoli'n barod. Sicrhau bod cynnwys y Cynllun a'r ddarpariaeth ymhob sefydliad yn cwrdd ag anghenion y myfyrwyr, disgyblion ac ysgolion o ran cyrraedd lefelau addas Estyn, Y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2.

5. Parhau i drafod disgwyliadau i fyfyrwyr ar brofiad ysgol gyda thiwtoriaid y Cynllun a mentoriaid ysgol.

6. Parhau i ysgogi'r myfyrwyr i ddefnyddio cynnwys yr adnoddau ar-lein ac eraill i gefnogi cyfnodau profiad ysgol.

Ar gyfer strwythur y ddarpariaeth

1. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i apwyntio swyddog penodol ar gyfer cydlynu a gweinyddu'r Cynllun er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a gweithio at godi statws y Cynllun o fewn y sefydliadau ac ysgolion ar draws Cymru.

2. Sicrhau bod tystysgrif genedlaethol newydd yn parhau i gael ei gwobrwyo ar gyfer pob myfyriwr sy wedi cyrraedd Cam ar y Cynllun.

3. Newid enw ar y Cynllun.

4. Sicrhau datblygiad pellach myfyrwyr newydd gymhwyso sydd eisiau parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Creu cofrestr o gyrhaeddiad y myfyrwyr ar ôl iddynt adael y coleg er mwyn eu tracio a sicrhau dilyniant a pharhad yn eu sgiliau iaith a methodoleg trwy ddatblygu cyswllt gyda'r gwasanaethau ymgynghorol.

5. Sicrhau bod gan bob sefydliad digon o adnoddau yn enwedig staff cymwys a phrofiadol ar gyfer cyflwyno'r Cynllun yn effeithiol ac effeithlon.

6. Creu cyfleoedd i bob un sydd eisiau datblygu eu sgiliau iaith a hyder trwy weithgareddau ac achlysuron cymdeithasol. Datblygu cyswllt gyda chyrff fel Cymraeg i Oedolion, Athrawon Bro, Menter Iaith ayyb.

Ar gyfer y Cymedroli

1. Penderfynu ar bwrpas a threfn y Cymedroli i sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi at y broses ymhob sefydliad. Mae cyfweld â gormod o grwpiau dros fore yn heriol iawn. Nid oes digon o amser i wneud llawer mwy na siarad â'r grwpiau. Nid oes amser i wneud tasg ysgrifennu, chwarae rôl, tasg ddarllen na dangos adnoddau, yn enwedig os oes mwy na 4 yn y grŵp. Mae angen o leiaf hanner awr i grŵp o 4 ar Gamau uwch nag 1 gyda thoriad rhwng y grwpiau i'r Cymedrolydd.

2. Ar ben hynny, mae sgwrsio gyda'r cymedrolydd yn straen ar y myfyrwyr heb son am adio at y straen o ofyn iddynt wneud unrhywbeth arall fel tasgau darllen ac ysgrifennu.

3. Casglu manylion perthnasol trwy holiadur i fonitro niferoedd a chyflawniad myfyrwyr.

4. Trefnu amser yn y prynhawn i drafod gyda thiwtoriaid a gweld gwaith unigolion.

Gobeithio ar ddiwedd fy rôl fel Cydlynydd fod y Cynllun yn parhau i elwa o gymorth Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn mynd o nerth i nerth. Edrychaf ymlaen at weld y tiwtoriaid a'r myfyrwyr yn adeiladu ar y llwyddiant arwyddocaol sydd wedi bod yn sylfaen gadarn i addysg Cymraeg Ail-iaith yn ysgolion Cymru ers 1990.

Cyfeirnodau

Llywodraeth Cymru. 2003. *Iaith Pawb. Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.